

Casglu data am gydraddoldebau: Safonau sydd wedi'u cysoni ac arferion gorau

Mae'r ddogfen hon yn cynnig canllawiau ar gasglu data am nodweddion a warchodir. Ni fwriedir i'r ddogfen hon fod yn ffurflen fonitro – yn hytrach mae'n cynnig arweiniad ar ddefnyddio cwestiynau sydd eisoes mewn bodolaeth.

Yn y ddogfen hon, rhestrir y cwestiynau hynny sy'n cael eu hystyried yn arferion gorau ar gyfer pob un o'r nodweddion a warchodir: oedran, anabledd, ethnigrwydd, ailbennu rhywedd, statws priodasol a statws partneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd, rhyw a hunaniaeth rywiol, a hefyd y categori ychwanegol sy'n ymwneud â chydraddoldeb, sef hunaniaeth genedlaethol.

Lle bo'n bosibl, cwestiynau sydd wedi'u cysoni sy'n cael eu cyflwyno. Fodd bynnag, nid oes cwestiynau wedi'u cysoni ar gael ar gyfer ailbennu rhywedd nac ar gyfer beichiogrwydd a mamolaeth (yn y Gymraeg na'r Saesneg). O ran ailbennu rhywedd, mae cwestiynau a ddatblygwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi'u cynnwys, ac o ran beichiogrwydd a mamolaeth, mae cwestiynau a ddatblygwyd gan yr Uned Herio Cydraddoldeb wedi'u cynnwys. Dylid nodi hefyd na phrofwyd fersiynau Cymraeg o ddau o'r cwestiynau Saesneg sydd wedi'u cysoni, ac na ellir felly ystyried bod y cwestiynau hynny yn rhai sydd wedi'u cysoni ychwaith: sef fersiynau Cymraeg o'r ddau gwestiwn ar anabledd a'r cwestiwn ar hunaniaeth rywiol.

Caiff cwestiynau sydd wedi'u cysoni eu defnyddio mewn arolygon ar raddfa fawr, fel yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, yr Arolwg o'r Llafurlu, Arolwg Cenedlaethol Cymru, a Chyfrifiad 2011 o'r Boblogaeth.

Cefndir

Yn yr Adolygiad o Gydraddoldebau, a gomisiynwyd gan Swyddfa'r Cabinet yn 2007, nodwyd bod anghysondebau yn y modd y caiff data am gydraddoldebau eu casglu, ac argymhellwyd defnyddio cysyniadau a chwestiynau sydd wedi'u cysoni ar draws maes cydraddoldeb. Gellir cael rhagor o wybodaeth (Saesneg yn unig) am yr Adolygiad o Gydraddoldebau drwy glicio yma: [Adolygiad o ddata am gydraddoldebau](#)

Bwriad rhaglen y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar gysoni cwestiynau oedd ceisio bodloni argymhelliad yr adolygiad drwy safoni mewnbynnau ac allbynnau ar gyfer Ystadegau Gwladol. Nod hynny oedd ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr weld cymariaethau mwy clir a chadarn rhwng ffynonellau data. Gellir cael rhagor o wybodaeth (Saesneg yn unig) ar Raglen SYG ar Gwestiynau sydd wedi'u Cysoni drwy glicio yma: [Raglen SYG ar Gwestiynau sydd wedi'u Cysoni](#)

Dyddiad y Cyhoeddiad: Hydref 16, 2013

Diweddariad Nesaf: Nid yw yn allbwn rheolaidd

Author: Nia Jones, Ystadegau Cyfiawnder Cymdeithasol, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

E-bost: ystadegau.cynhwysiant@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: 0300 025 5050

Twitter: www.twitter.com/statisticswales | www.twitter.com/ystadegaucymru

Casglu data

Yr hyn y dylid ei ystyried yn gyntaf bob amser yw a oes gennych ddefnydd pendant ar gyfer yr wybodaeth. Os nad oes cynllun pendant ar gael ar gyfer defnyddio'r wybodaeth, yna nid yw casglu'r wybodaeth yn debyg o fod yn ddefnydd da o adnoddau, a gallai fod yn anfoesegol. Yr ail beth y dylid ei ystyried yw a yw'n synhwyrol i geisio casglu gwybodaeth drwy arolwg neu drwy ffurflen fonitro (yn hytrach na thrwy ddull arall, fel ymchwil ansoddol), o ystyried natur y grŵp a'r materion penodol y mae gennych ddiddordeb ynddynt.

Wrth ystyried a ddylid casglu gwybodaeth am gydraddoldebau drwy arolwg, cofiwch:

- fod arolygon o samplau sydd ar raddfa fawr ac o ansawdd uchel yn gostus, ac yn aml mae'r is-grŵp o'r boblogaeth mor fach fel y byddai'n rhaid i'r sampl fod yn un wirioneddol o fawr i gasglu gwybodaeth gadarn;
- y gallai fod yn anodd dod o hyd i gwestiynau sydd wedi'u profi'n dda, neu lunio cwestiynau newydd sy'n cynhyrchu canlyniadau cywir: er enghraifft, mae'n bosibl na fydd ymatebwyr yn deall yr hyn sy'n cael ei ofyn, neu na fyddant yn dymuno rhoi'r wybodaeth y gofynnir amdani;
- y gallai gofyn cwestiynau am bynciau sensitif ddigio ymatebwyr. Gallai hynny arwain at gwynion, sylw negyddol yn y cyfryngau, ac at gyfraddau llai o ymatebion hyd yn oed.

Pam defnyddio cwestiynau sydd wedi'u cysoni?

Mae'r rhaglen ar gwestiynau sydd wedi'u cysoni a gynhaliwyd gan SYG yn tynnu sylw at fanteision defnyddio cwestiynau sydd wedi'u cysoni, o ran ansawdd data a chymharu data.

Defnyddir cwestiynau sydd wedi'u cysoni er mwyn pennu diffiniadau a dulliau safonol a chyffredin sy'n seiliedig ar wybodaeth. Mae'r cwestiynau sydd wedi'u cysoni a gaiff eu cyflwyno yn y ddogfen hon wedi'u profi'n eang, drwy brofion gwybyddol a thrwy arolygon ar raddfa fawr. Gwneir hynny er mwyn sicrhau eu bod yn casglu'r data cywir ar gyfer y diben y bwriedir iddynt, ac nad yw ansawdd y data'n cael ei effeithio gan eiriad y cwestiwn, gan drefn categorïau'r ymatebion neu gan y drefn y gofynnir y cwestiynau. Er enghraifft, mae gwaith ymchwil yn dangos ei bod yn well i ofyn y cwestiwn ar hunaniaeth genedlaethol cyn y cwestiwn ar grŵp ethnig i osgoi effaith negyddol y drefn fel arall, a bod pobl yn fwy bodlon ateb am eu hunaniaeth genedlaethol yn gyntaf.

Mae defnyddio cwestiynau safonol yn galluogi i ddata gael eu cymharu ar draws sefydliadau ac yn y cyd-destun ehangach. Mae'n bosibl i ddata a gaiff eu casglu gan sefydliadau gael eu meincnodi yn erbyn data o arolygon ar raddfa fawr os yw'r un cwestiwn yn cael ei ddefnyddio.

Mater arall sy'n gysylltiedig yw lleihau'r baich ar ymatebwyr. Er enghraifft, mae rhoi'r categori ymateb 'dim crefydd' yn gyntaf yn sicrhau nad oes angen i'r rhai hynny nad ydynt yn grefyddol fynd trwy'r rhestr o grefyddau er mwyn ateb y cwestiwn. Yn yr un modd, mae rhoi 'Gwyn' fel y categori ymateb cyntaf ar gyfer y cwestiwn ar ethnigrwydd yn golygu nad oes angen i'r mwyafrif o'r ymatebwyr (yn y rhan fwyaf o achosion) ddarllen drwy bob un o'r categorïau ymateb. Dim ond y bobl hynny sy'n rhan o grŵp nad yw'n un mwyafrifol sydd angen darllen trwy'r rhestr o gategoriâu.

Cafodd y cwestiynau sydd wedi'u cysoni eu datblygu gan SYG i fodloni safonau rhyngwladol ac i gydymffurfio â deddfwriaeth y Deyrnas Unedig (DU) a'r Undeb Ewropeaidd (UE). Gellir dod o hyd i ddolen i Raglen SYG ar Gwestiynau sydd wedi'u Cysoni yn yr adran ar ddolenni defnyddiol ar ddiwedd y ddogfen hon.

Dull cyflwyno'r wybodaeth

Bwriedir i'r cwestiynau a gyflwynir yn y ddogfen hon gael eu defnyddio mewn ffurflenni a holiaduron papur.

Mae'n bwysig nodi y gallai cwestiynau fod ychydig yn wahanol yn ôl y dull y maent yn cael eu cyflwyno. Er enghraifft, bydd cwestiynau a ofynnir wyneb yn wyneb yn wahanol i'r rhai hynny a ofynnir dros y ffôn neu ar ffurflen neu holiadur papur. Gellir cael manylion am gyflwyno gwybodaeth ar gyfer gwahanol ddulliau ar dudalennau gwe Rhaglen SYG ar Gwestiynau sydd wedi'u Cysoni.

Ymatebion 'Gwell gennyf beidio â dweud'

Nid yw'r rhan fwyaf o gwestiynau'n cynnwys opsiwn 'Gwell gennyf beidio â dweud', gan mai'r prif ddull o gyflwyno gwybodaeth y dyddiau hyn yw drwy arolygon wyneb yn wyneb, neu dros y ffôn.

Mae'n bosibl ychwanegu 'Gwell gennyf beidio â dweud' at ddiwedd rhestr o gategoriâu ymateb. Fodd bynnag, mae'n bwysig ystyried y rhesymau y mae'n bosibl y byddai'n well gan bobl beidio ag ateb cwestiwn penodol, sef materion sy'n ymwneud â phreifatrwydd, mewn ymateb i gwestiwn sensitif, neu oherwydd y canfyddiad y byddai ateb penodol yn un annerbyniol yn gymdeithasol.

Mae cynnwys opsiwn 'Gwell gennyf beidio â dweud' yn debygol o arwain at gynnydd yn y nifer o ddiffyg atebion ac at fwy o ddata coll, a byddai hynny'n effeithio ar y gallu i gymharu'r data â data meincnodi eraill a gasglwyd dros y ffôn neu drwy gyfweiliadau wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai unigolion beidio ag ateb cwestiynau am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys peidio â darllen neu ddeall cwestiwn penodol, felly gellid mesur diffyg ateb gwirioneddol drwy gynnwys opsiwn 'Gwell gennyf beidio â dweud'.

Cwestiynau sydd wedi'u Cysoni ac Arferion Gorau

Oedran

Argymhellir bod data ar oedran yn cael eu casglu drwy ddefnyddio'r cwestiwn canlynol:

Beth yw dyddiad eich geni?

Cafodd y fersiwn Gymraeg o'r cwestiwn hwn ei phrofi ar gyfer holiaduron Cymraeg Cyfrifiad 2011.

Gall data am ddyddiad geni gael eu trosglwyddo i oedran ar adeg yr arolwg ac mae hynny'n caniatáu i ddata ar oedran gael eu crynhoi mewn grwpiau gwahanol o ran oedran. Er enghraifft, grŵp oedran 0-15, neu os bydd angen dadansoddiad mwy manwl, oedrannau 0-4, 5-9, 10-14.

Mae lefel y crynhoi yn dibynnu ar ddiben y dadansoddi, ac ansawdd y data, gan gynnwys maint y sampl yn y gwahanol grwpiau o oedrannau.

Mae Tabl 1 yn dangos y categorïau a argymhellir, er efallai na fydd angen dadansoddiad llawn.

Tabl 1: Grwpiau o oeddrannau sydd wedi'u cysoni

0-24 oed	0-15 oed	0-4 oed
		5-10 oed
		11-15 oed
	16-24 oed	16-19 oed
		20-24 oed
25-44 oed	25-34 oed	25-29 oed
		30-34 oed
	35-44 oed	35-39 oed
		40-44 oed
45-64 oed	45-54 oed	45-49 oed
		50-54 oed
	55-64 oed	55-59 oed
		60-64 oed
65-74 oed		65-69 oed
		70-74 oed
75+ oed		75-84 oed
		85+ oed

Mae Tabl 1 yn amlinellu'r categorïau safonol ar gyfer allbynnau sy'n cael eu defnyddio mewn nifer o arolygon.

Rhyw

Argymhellir bod data ar ryw yn cael eu casglu drwy ddefnyddio'r cwestiwn canlynol:

Beth yw eich rhyw?

- Gwryw
- Benyw

Cafodd y fersiwn Gymraeg o'r cwestiwn hwn ei phrofi ar gyfer holiaduron Cymraeg Cyfrifiad 2011.

Mae'r Uned Herio Cydraddoldeb yn argymhell cynnwys yr opsiwn ymateb 'arall'. Ystyrir bod defnyddio 'arall' yn briodol ar gyfer pobl sy'n uniaethu â'r termau/labeli rhyngrywiol, androgynaid, rhyngryweddol, deuryweddol, rhywedd-hylifol, amlryweddol a *genderqueer*.

Anabledd

Model cymdeithasol o anabledd

Yn 2002, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru y Model Cymdeithasol o Anabledd yn sail i'w gwaith ar anabledd. Mae'r model yn anelu at annog pobl i ystyried y cysyniad o anabledd mewn ffordd wahanol. Sylfaen y model hwn yw bod pobl â namau'n cael eu hanablu oherwydd rhwystrau corfforol, agweddol a sefydliadol a grewyd gan y gymdeithas.

Nid oedd cwestiwn wedi'i gysoni yn ôl model cymdeithasol o anabledd ar gael mewn pryd ar gyfer cyhoeddi'r ddogfen hon. Ond mae gwaith ar y gweill ar draws llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig i ddatblygu cwestiwn wedi'i gysoni/cwestiynau wedi'u cysoni i gasglu data ar anabledd yn ôl y model cymdeithasol.

Model meddygol o anabledd

Mae'r cwestiynau ar anabledd sydd wedi'u cysoni (fersiynau Saesneg yn unig) yn casglu data sy'n unol â'r model meddygol o anabledd. Ar gyfer y model meddygol o anabledd, diffinnir pobl anlwl yn ôl y nam neu'r cyflwr iechyd sydd ganddynt ac yr ystyrir ei fod yn achosi dibyniaeth neu angen am

driniaeth neu ofal. I raddau helaeth, mae'r gofynion statudol wrth adrodd am anabledd yn dilyn y model meddygol o anabledd hefyd.

Gellir casglu gwybodaeth am anabledd drwy ddefnyddio'r cwestiynau canlynol:

- A oes gennych unrhyw gyflwr iechyd neu salwch corfforol neu feddyliol sydd wedi para neu sy'n debygol o bara am o leiaf 12 mis neu fwy?
 1. Oes
 2. Nac oes

- A yw unrhyw gyflwr neu salwch sydd gennych yn lleihau eich gallu i wneud gweithgareddau bob dydd?
 1. Ydy, yn fawr
 2. Ydy, ychydig
 3. Nac ydy, dim o gwbl

Nid yw'r fersiynau Cymraeg o'r cwestiynau hyn wedi'u profi.

Mae'r ymatebwyr sy'n ateb 'Oes' i gwestiwn 1, ac 'Ydy, yn fawr' neu 'Ydy, ychydig' i gwestiwn 2 yn cael eu categoreiddio'n anabl yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r cwestiynau hyn ar anabledd sydd wedi'u cysoni (fersiynau Saesneg yn unig) yn casglu data ynglŷn â'r boblogaeth anabl graidd, ond yn eithrio'r boblogaeth anabl heb fod yn un graidd sy'n cael ei chynnwys o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hynny o ganlyniad i broblemau wrth ddisgrifio cyflyrau penodol sy'n gwaethygu'n raddol, ac wrth gynnwys elfennau ychwanegol i ddynodi'r data mewn arolygon. Y bobl hynny a gaiff eu heithrio yw:

- a) y rhai hynny sydd â chyflwr sy'n gwaethygu'n raddol ac sydd wedi'i nodi yn y Ddeddf (sef HIV/AIDS, Canser neu Sglerosis Ymledol) p'un a yw'r cyflwr yn cael effaith andwyol sylweddol neu beidio ar gyflawni gweithgareddau bob dydd;
- b) y rhai hynny y byddai eu cyflyrau'n cyfyngu ar eu gweithgareddau heb feddyginiaeth neu driniaeth; ac
- c) y rhai hynny y mae eu cyflyrau wedi cyfyngu ar eu gweithgareddau yn y gorffennol ond nad yw hynny'n wir bellach.

Mae canllawiau ar gael (Saesneg yn unig) ar ddefnyddio set o gwestiynau i ganfod y math o nam (sydd gan y rhai hynny sy'n anabl neu bob un o'r ymatebwyr): <http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/harmonisation/primary-set-of-harmonised-concepts-and-questions/index.html>

I gasglu data ar anabledd gan ddefnyddio un cwestiwn unigol, mae Cyfrifiad 2011 yn cynnwys y cwestiwn 'A oes gennych broblem iechyd neu anabledd sydd wedi para neu sy'n debygol o bara am o leiaf 12 mis, ac sy'n cyfyngu ar eich gallu i wneud gweithgareddau arferol?' A'r categorïau ymateb yw:

1. Oes, yn cyfyngu'n fawr
2. Oes, yn cyfyngu ychydig
3. Nac oes

Cafodd y fersiwn Gymraeg o'r cwestiwn hwn ei phrofi ar gyfer holiaduron Cymraeg Cyfrifiad 2011.

Awgrymir defnyddio'r cwestiwn hwn os bydd lle ar yr holiadur yn gyfyng.

Hunaniaeth Genedlaethol

Gellir casglu gwybodaeth am hunaniaeth genedlaethol yng Nghymru drwy ddefnyddio'r cwestiwn canlynol:

*Sut fydddech chi'n disgrifio'ch hunaniaeth genedlaethol?
Ticiwch bob un sy'n berthnasol.*

1. Cymro/Cymraes
2. Sais/Saesnes
3. Albanwr/Albanes
4. Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon
5. Prydeiniwr/Prydeinwraig
6. Arall, nodwch

Argymhellir cyflwyno'r cwestiwn ar hunaniaeth genedlaethol yn uniongyrchol cyn y cwestiwn ar grŵp ethnig.

Cafodd y fersiwn Gymraeg o'r cwestiwn hwn ei phrofi ar gyfer holiaduron Cymraeg Cyfrifiad 2011.

Ethnigrwydd

Gellir casglu gwybodaeth am ethnigrwydd yng Nghymru drwy ddefnyddio'r cwestiwn canlynol:

*Beth yw eich grŵp ethnig?
Dewiswch un opsiwn sy'n disgrifio'ch grŵp neu'ch cefndir ethnig orau.*

Gwyn

1. Cymreig / Seisnig / Albanaid / Gwyddelig Gogledd Iwerddon / Prydeinig
2. Gwyddelig
3. Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
4. Unrhyw gefndir Gwyn arall, nodwch

Cymysg / grwpiau aml-ethnig

5. Gwyn a Du Caribiaidd
6. Gwyn a Du Affricanaidd
7. Gwyn ac Asiaidd
8. Unrhyw gefndir Cymysg / aml-ethnig arall, nodwch

Asiaidd / Asiaidd Prydeinig

9. Indiaidd
10. Pacistanaidd
11. Bangladeshaid
12. Tseineaidd
13. Unrhyw gefndir Asiaidd arall, nodwch

Du / Affricanaidd / Caribiaidd / Du Prydeinig

14. Affricanaidd
15. Caribiaidd
16. Unrhyw gefndir Du / Affricanaidd / Caribiaidd arall, nodwch

Grŵp ethnig arall

17. Arabaidd
18. Unrhyw grŵp ethnig arall, nodwch

Cafodd y fersiwn Gymraeg o'r cwestiwn hwn ei phrofi ar gyfer holiaduron Cymraeg Cyfrifiad 2011.

Mae'n bosibl cyflwyno'r data yn ôl grwpiau eang, neu, os nad yw datgeliad yn broblem, gellir defnyddio'r holl gategorïau.

Crefydd

Gellir casglu gwybodaeth am grefydd yng Nghymru drwy ddefnyddio'r cysyniad o ymlyniad crefyddol a chan ddefnyddio'r cwestiwn canlynol:

Beth yw eich crefydd?

1. Dim crefydd
2. Cristnogaeth (pob enwad)
3. Bwdhaeth
4. Hindŵaeth
5. Iddewiaeth
6. Islam
7. Siciaeth
8. Unrhyw grefydd arall, nodwch

Cafodd y fersiwn Gymraeg o'r cwestiwn hwn ei phrofi ar gyfer holiaduron Cymraeg Cyfrifiad 2011.

Ailbennu Rhywedd / Hunaniaeth o ran Rhywedd

Nid oes cwestiwn wedi'i gysoni ar ailbennu rhywedd wedi'i ddatblygu gan SYG oherwydd (1) problemau wrth ddiffinio'r gwahanol grwpiau trawsryweddol, a (2) pryderon ynglŷn â chynnwys cwestiwn o'r fath mewn arolygon aelwydydd a gynhelir gan SYG. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y pryderon hyn mewn adroddiad (Saesneg yn unig) gan SYG, sef 'Trans Data Position Paper': <http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/measuring-equality/equality/equality-data-review/index.html>

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn argymhell y cwestiynau canlynol er mwyn casglu data ar grwpiau trawsryweddol. Mae cwestiwn 1 yn gofyn am ryw ar enedigaeth, tra bo cwestiwn 2 yn gofyn am hunaniaeth o ran rhywedd:

1. Pan gawsoch eich geni, a gawsoch eich disgrifio fel...
Ticiwch un opsiwn
 - a. Gwryw
 - b. Benyw
 - c. Unigolyn rhyngrywiol
 - d. Gwell gennyf beidio â dweud

2. Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio sut rydych chi'n meddwl amdanoch eich hun?
Ticiwch un opsiwn
 - a. Gwryw
 - b. Benyw
 - c. Disgrifiad arall: _____

Nid yw fersiynau Cymraeg o'r cwestiynau hyn wedi'u profi.

Mae defnyddio cwestiwn 1 ar y cyd â chwestiwn 2 yn caniatâu i wybodaeth gael ei chasglu am hunaniaeth trawsryweddol a/neu hanes o hunaniaeth trawsryweddol. Argymhellir mai dim ond i bobl 16 oed ac yn hŷn y dylid gofyn y cwestiynau hyn.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cyhoeddi nodiadau sy'n ymwneud â chymryd gofal wrth fonitro hunaniaeth o ran rhywedd. Gweler y dudalen we ganlynol (Saesneg yn unig) os byddwch yn bwriadu casglu'r data hyn: <http://www.equalityhumanrights.com/advice-and-guidance/before-the-equality-act/guidance-for-employers-pre-october-10/guidance-on-recruiting-and-supporting-trans-people/trans-monitoring/>

Gellir cael rhagor o wybodaeth (Saesneg yn unig) yn adroddiad ymchwil 75 CCHD, sef 'Monitoring equality - Developing a gender identity question' ac mewn papur cysylltiedig, 'Summary document on how to collect information on gender identity'. Mae'r ddogfen hyn ar gael drwy'r dudalen we ganlynol: <http://www.equalityhumanrights.com/publications/our-research/research-reports/research-reports-71-80/>

Statws Priodasol a Statws Partneriaethau Sifil

Cafodd gwybodaeth am statws priodasol a statws partneriaethau sifil ei chasglu yng Nghyfrifiad 2011, gan ddefnyddio'r cwestiwn:

Beth, yn gyfreithiol, yw'ch statws priodasol neu statws eich partneriaeth sifil o'r un rhyw?

1. Erioed wedi priodi na chofrestru partneriaeth sifil o'r un rhyw
2. Priod
3. Wedi gwahanu, ond yn gyfreithiol yn dal i fod yn briod
4. Wedi ysgaru
5. Gweddw
6. Mewn partneriaeth sifil gofrestredig o'r un rhyw
7. Wedi gwahanu, ond yn gyfreithiol yn dal i fod mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw
8. Wedi bod mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw sydd bellach wedi'i diddymu'n gyfreithiol
9. Wedi colli partner sifil o'r un rhyw trwy farwolaeth

Cafodd y fersiwn Gymraeg o'r cwestiwn hwn ei phrofi ar gyfer holiaduron Cymraeg Cyfrifiad 2011.

Beichiogrwydd a Mamolaeth

Nid oes cwestiynau wedi'u cysoni ar gael ar gyfer beichiogrwydd a mamolaeth, ond mae'r Uned Herio Cydraddoldeb yn argymhell y cwestiynau canlynol:

A ydych yn feichiog ar hyn o bryd neu a ydych wedi bod yn feichiog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

1. Ydw
2. Nac ydw
3. Gwell gennyf beidio â dweud

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a ydych wedi cymryd

1. Absenoldeb mamolaeth
2. Absenoldeb tadolaeth ychwanegol (ee mwy na 2 wythnos)
3. Absenoldeb mabwysiadu

Nid yw fersiynau Cymraeg o'r cwestiynau hyn wedi'u profi.

Hunaniaeth Rywiol

Mae hunaniaeth rywiol, yn ôl yr hyn a ddiffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn cyfeirio at gyfeiriadedd rhywiol unigolyn tuag at (a) person o'r un rhyw ag ef neu hi (b) person o'r rhyw arall, neu (c) y ddau. Dengys gwaith ymchwil fod y cysyniad o gyfeiriadedd rhywiol yn cynnwys gwahanol elfennau, gan gynnwys atyniad, ymddygiad, ffantasi, emosiwn, a hunaniaeth, sy'n ei wneud yn anodd ei fesur. Mae fersiwn Saesneg o'r cwestiwn hwn wedi'i gysoni, a bwriad y cwestiwn yw gofyn am hunaniaeth rywiol, sef yr elfen fwyaf cysylltiedig â phrofiad rhai grwpiau o fod dan anfantais ac o fod yn destun gwahaniaethu.

Gellir casglu gwybodaeth am hunaniaeth rywiol drwy ddefnyddio'r cwestiwn canlynol:

Pa un o'r opsiynau canlynol sy'n disgrifio orau sut rydych chi'n meddwl amdanoch eich hun?

1. Heterorywiol neu strêr
2. Hoyw neu lesbiaidd
3. Deurywiol
4. Arall
5. Gwell gennyf beidio â dweud

Nid yw fersiwn Gymraeg o'r cwestiwn hwn wedi'i phrofi.

Mae 'Hoyw a lesbiaidd' yn ffurfio un categori, yn hytrach na dau categori ar wahân, gan gymryd y gofynnir am 'ryw' mewn cwestiwn ar wahân. Felly, byddai dadansoddiad o hunaniaeth rywiol yn ôl rhyw yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen i allu gwahanu'r poblogaethau hoyw a lesbiaidd.

Mae gwaith ymchwil yn dangos bod lleoliad y cwestiwn yn bwysig. Gwelwyd bod ateb y cwestiwn ar grefydd cyn y cwestiwn ar hunaniaeth rywiol yn effeithio ar yr atebion i'r cwestiwn ar hunaniaeth rywiol. Felly, argymhellir y dylai'r cwestiwn ar hunaniaeth rywiol gael ei ofyn cyn y cwestiwn ar grefydd.

Argymhellir mai dim ond i bobl 16 oed ac yn hŷn y dylid gofyn y cwestiwn hwn.

Dolenni defnyddiol

Mae Rhaglen y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar Gwestiynau sydd wedi'u Cysoni yn categoreiddio cwestiynau sydd wedi'u cysoni yn ôl safonau sylfaenol a safonau eilaidd (Saesneg yn unig). Mae'r safonau sylfaenol yn cynnwys gwybodaeth ddemograffaid a gwybodaeth am gydberthnasau, grŵp ethnig ac anabledd. Mae'r safonau eilaidd yn cynnwys gwybodaeth am hunaniaeth genedlaethol, hunaniaeth grefyddol a hunaniaeth rywiol (Saesneg yn unig) :

<http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/harmonisation/harmonisation-programme/index.html>

Mae'r Uned Herio Cydraddoldeb yn hyrwyddo ac yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer staff a myfyrwyr mewn addysg uwchradd ar draws pedair cenedl y DU, ac mewn addysg bellach yn yr Alban. Caiff yr Uned ei hariannu gan gyrff cynrychioladol y sector addysg uwch a chan gyrff cyllido addysg uwch y DU, gan gynnwys, ymhlith eraill, Universities UK, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r Adran Cyflogaeth a Dysgu (Saesneg yn unig): <http://www.ecu.ac.uk/>

Cwestiynau Cyfrifiad 2011(Saesneg yn unig): <http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/2011/index.html>

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (Saesneg yn unig): <http://www.equalityhumanrights.com/>